O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 1086 (Cy.134)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cerbytffordd tua'r Gorllewin rhwng Cyffordd 19, Cyffordd Llandudno, a Chyffordd 23, Llanddulas, Conwy) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed *13 Ebrill 2012*

Yn dod i rym *23 Ebrill 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Ebrill 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cerbytffordd tua'r Gorllewin rhwng Cyffordd 19, Cyffordd Llandudno, a Chyffordd 23, Llanddulas, Conwy) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 19:00 o'r gloch ar 23 Ebrill 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud ymaith yn barhaol;